

**20CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

**P J Lucas**

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach CF40 2XX**

Rhif (01443) 424099 – Mrs Z.Maisey

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 27<sup>ain</sup> Ebrill 2016 am 5.00 p.m.**

**AGENDA**

**Tudalennau**

**DATGAN BUDDIANT**

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2016 yn rhai cywir.

**1 - 16**

- 4** **LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

**6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

- (a) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Bradwick i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Diogel, Llyfrgelloedd a Threftadaeth, y Cyngorydd J. Rosser.**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ynglŷn â Chynhwysiad Digidol?"

- (b) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Smith i Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd A.Morgan.**

"A wnaiff yr Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y tirlithriad diweddar ar fynydd y Maerdy?"

- (c) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R.B. McDonald i Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd A.Morgan.**

"A wnaiff yr Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf ar y Cytundeb Dinas?"

- (ch) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol C. Williams i Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd A.Morgan.**

A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ynglŷn â Buddsoddiad yn ein Priffyrdd?"

- (d) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Trechu Tlodi, Ymgysylltu, a Thai, y Cyngorydd K.Montague.**

"A chithau'n Aelod o'r Cabinet ar faterion Trechu Tlodi, Ymgysylltu, a Thai, a wnewch ddatganiad ar eich atebolrwydd a'ch cyfrifoldebau cysylltiedig?"

**7 Cynllunio Gwasanaethau yn y Tymor Canolig - yr wybodaeth ddiweddaraf  
Cyllideb Refeniw y Cyngor 2016/17**

Trafod adroddiad y Cabinet

**17 - 20**

**8 Ariannu Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif trwy ddefnyddio amodau benthyca darbodus (Prudential Borrowing)**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

**21 – 24**

## 9 RHYBUDD O GYNNIG

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M.Norris, L.M.Adams, (Mrs) T.Bates, D.R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S. Bradwick, (Mrs) J.Bunnage, A.Calvert, P. Cannon, S.Carter, J.Cass, A.Crimmings, W.J.David, A.Davies, MBE, (Mrs) A.Davies, J.Davies, (Mrs) M.Davies, (Mrs) L. De Vet, J.Elliott, S.Evans, M.Forey, A.Fox, M.Griffiths, P.Griffiths, (Mrs) E.Hanagan, G.Holmes, G.Hopkins, (Mrs) S.J.Jones, L.Langford, R.Lewis, (Mrs) C.Leyshon, S.Lloyd, R.B.McDonald, C.Middle, K.Montague, A.Morgan, B.Morgan, S.Pickering, S.Powderhill, K.Privett, S.Rees, (Mrs) A.Roberts, J.Rosser, G. Smith, R.Smith, G.Stacey, B. Stephens, (Mrs) M. Tegg, G.Thomas, R.K.Turner, (Mrs) J.S.Ward, M.J.Watts (Mrs) M.Webber, D.Weeks, C.J.Williams, D.H.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo:

"Bod y Cyngor hwn yn nodi:

1. Bod yr UE ac UDA wedi lansio trafodaethau ym mis Gorffennaf 2013 ar y mater o fasnachu a phartneriaeth buddsoddi (TTIP)
2. Bod trafodaethau ar y gweill i benderfynu pa nwyddau a gwasanaethau bydd yn berthnasol i TTIP ac os oes modd cytuno ar reolau newydd i ddiogelu buddsoddwyr, cysoni safonau, lleihau tariffau ac agor marchnadoedd newydd ledled yr UE ac UDA
3. Na fu unrhyw asesiad effaith am yr effaith bosibl ar awdurdodau lleol.
4. Na fu unrhyw waith craffu o destunau trafodaethau gan lywodraeth leol nac unrhyw ymgynghori â chynrychiolwyr o du llywodraeth leol ychwaith.
5. Nid yw Aelodau Seneddol yn gallu craffu ar y dogfennau trafod chwaith.

Bod y Cyngor hwn o'r farn:

1. Gallai TTIP gael effaith niweidiol ar wasanaethau lleol, cyflogaeth, cyflenwyr a'r broses o ddod i benderfyniad.
2. Rhaid cynnal asesiad effaith trylwyr o'r TTIP ar awdurdodau lleol cyn i'r trafodaethau ddod i ben.
3. Defnyddiwyd dull Investor State Dispute Settlement (ISDS) gan gorfforaethau i wrthdroi penderfyniadau democrataidd ar bob lefel o lywodraeth ar gost gyhoeddus sylweddol. Rhaid amddiffyn penderfyniadau lleol rhag ISDS.

4. Bod safonau yr UE o ran bwyd, yr amgylchedd ac o ran cyflogaeth yn well na'r rhai yn yr Unol Daleithiau a rhaid i drafodaethau TTIP godi'r safonau ar draws yr UE ac UDA, nid gostwng y safonau.
5. Bod cyrchu cyflenwadau a gweithwyr lleol yn bwysig i atgyfnerthu economïau lleol a diwallu anghenion lleol. Ddylai TTIP ddim effeithio ar allu awdurdodau lleol i weithredu er budd pennaf eu cymunedau.

Bod y Cyngor hwn:

1. Am ysgrifennu at y Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus; ASau ac ACau Rhondda Cynon Taf; a holl ASE Cymru, i godi ein pryderon difrifol ynghylch effaith TTIP ar awdurdodau lleol a chyfrinachedd y broses drafod.
2. Am ysgrifennu at y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi ein pryderon difrifol am effaith TTIP ar awdurdodau lleol a gofyn iddyn nhw godi hyn gyda'r Llywodraeth ar ein rhan.
3. Yn galw am asesiad effaith ar effaith TTIP ar awdurdodau lleol.
4. Am roi cyhoeddusrwydd i bryderon y Cyngor am TTIP; ymuno ag awdurdodau lleol eraill sydd yn gwrthwynebu TTIP ledled Ewrop a gweithio gyda'r ymgyrchwyr lleol i godi ymwybyddiaeth am broblemau TTIP.
5. Am gysylltu â bwrdeistrefi sy wedi'u gefeillio gyda Rhondda Cynon Taf yn Ewrop a gofyn iddynt ystyried pasio cynnig tebyg ar TTIP
6. Am ofyn i'r Aelod Cabinet priodol i ddatblygu'r camau gweithredu hyn ac i'r mater, ac unrhyw ymatebion dilynol a champau, gael eu hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. "

## 10 RHYBUDD O GYNNIG

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams, G.Smith, (Mrs) T.Bates, D.R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S. Bradwick, (Mrs) J.Bunnage, A.Calvert, P.Cannon, S.Carter, J.Cass, A.Crimmings, W.J.David, A.Davies, MBE, (Mrs) A.Davies, J.Davies, (Mrs) M.Davies, (Mrs) L. De Vet, J.Elliott, E.Evans, M.Forey, A.Fox, M.Griffiths, P.Griffiths, (Mrs) E.Hanagan, G.Holmes, G.Hopkins, (Mrs) S.J.Jones, W.L.Langford, R.Lewis, (Mrs) C.Leyshon, S.Lloyd, R.B.McDonald, C.Middle, K.Montague, A.Morgan, B.Morgan, M.Norris, S.Pickering, S.Powderhill, K.Privett, S.Rees, (Mrs) A.Roberts, J.Rosser, R.Smith, G.Stacey,

B.Stephens, (Mrs) M.Tegg, G.Thomas, R.K.Turner, (Mrs) J.S.Ward M.J.Watts, (Mrs) M.Webber, D.Weeks, C.Williams, D.H.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo:

"Mae'r Cyngor hwn yn cyfarwyddo'r Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol i gyflwyno adroddiad i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn nodi cynnig i alluogi i'r Cyngorwyr i gyd gymryd rhan yn y broses graffu."


**11 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:–**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

**12 Swydd y Prif Weithredwr – trefniadau dros dro**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig **25 - 27**

**13 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.**



**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**

**At: Pob aelod o'r Cyngor**

**20 Ebrill 2016**

This page intentionally blank